# Taflen Ffeithiau Tyfu Cymru: Bioreolaeth Ffrwythau Meddal

**Isod, mae rhai o'r ffurfiau cyffredin o fioreolaeth sydd ar gael mewn cnydau o ffrwythau meddal. Er mwyn eu defnyddio'n effeithiol, dylech holi un o gynghorwyr hyfforddedig Cynllun Arolygu Safonau Agrocemegol Prydain (BASIS) ynghylch sut i fynd i'r afael â nhw.**

**Ar ôl i chi dderbyn cynnyrch bioreoleth, mae'n well eu defnyddio'n syth. Peidiwch ag oedi cyn eu defnyddio. Cadwch y cynnyrch mewn lle sych yn unol â chyfarwyddiadau'r label. Mae angen cadw'r rhan fwyaf o'r pecynnau ar i fyny er mwyn gwneud yn siŵr eu bod wedi cymysgu'n dda.**

## Orius

Mae'r Orius yn ysglyfaethwr cyffredinol sy'n bwyta amrywiaeth eang o blâu. Dyma un o'r ychydig drychfilod bioreolaeth sy'n bwyta 'thripiau' oedolion. Mae'n gallu datblygu'n dda ar gnydau sydd â chyfoeth o baill. Gall gymryd rhwng 4 ac 8 wythnos i ddatblygu poblogaeth.



**Orius oedolyn yn bwyta thripiau**

Maint: **2-3mm**
Bwyd: **Paill, thripiau (yr hoff bla), Gwiddon corryn brych, pryf gwyn, wyau gwyfynod a nymffod lygus.**
Tymheredd Uchaf: **18-25°C (lleiafswm 15°C)**
Lleithder gorau posibl: **70%**
Hyd Oes: **3-4 wythnos**
Cyfraddau atal: **0.5 pob m$^2$**
Cyfraddau goroesi (Ysgafn/ Trwm): **3.5 pob m$^2$/ 5-10 pob m$^2$**



**Cymysgedd cludo Orius sy'n dod yn y mwyafrif o becynnau**

- Rhowch y cymysgedd mewn clwstwr o 70-100 unigolyn gan y bydd yn annog bridio a chynnydd mewn poblogaeth. Mae'n well peidio ag amharu arnynt am ychydig ddyddiau ar ôl eu rhoi yno.
- Mae'r Orius yn dodwy'r rhan fwyaf o'i wyau ar egin ochr. Mae'n well ei roi ar ôl tynnu'r egin ochr o'r cnwd.
- Ni ddylid defnyddio'r dulliau ataliol cyn i'r blodau cyntaf agor gan eu bod angen paill i oroesi heb ysglyfaethwr.
- Rhowch y cymysgedd ar fore braf neu'n hwyr yn y prynhawn er mwyn osgoi golau haul llachar.

## Gwiddon ysglyfaethus – *Amblyseius (Neoseiulus) cucumeris*

Mae'r *Amblyseius cucumeris (*sy'n cael ei adnabod yn wyddonol fel *Neoseiulus cucumeris)* yn ysglyfaethwr cyffredinol sy'n gallu byw ar baill. Mae'n dda iawn am ymosod ar wyau, gwiddon a thripiau larfaol.



***Amblyseius cucumeris* ar ddeilen (Llun ©Bioline)**

Maint: **0.3mm**
Bwyd: **Larfâu Thripiau, Gwiddon corryn brych, Gwiddon eang, Gwiddon siclamen.**
Tymheredd Uchaf: **18- 31°C**
Lleithder gorau posibl: **65-75%**
Cyfraddau Atal: **50 pob m$^2$**
Cyfraddau Goroesi (Ysgafn/ Trwm): **250 – 500 pob m$^2$/ 250-500 pob m$^2$**



**Enghraifft o ddull gwasgaru drwy fagiau bach**

Mae gwiddon ysglyfaethus yn targedu amrywiaeth eang o rywogaethau o thripiau ond dylid nodi eu bod ond yn targedu'r wyau a'r larfâu, nid oedolion. Maent yn lledaenu drwy'r cnwd drwy ddail/coesau sy'n cyffwrdd ei gilydd. Mae'r gwiddon yn gallu bwyta paill ynghyd â phlâu er mwyn galluogi dull ataliol pan na fydd plâu. Mae bagiau bach o widdon ysglyfaethus yn gweithredu fel unedau bridio sydd â ffynhonnell bwyd ac maent yn rhyddhau llif gyson o widdon dros ychydig wythnosau.

## Gwenyn meirch parasitaidd.

Mae gwenyn meirch parasitaidd (ysglyfaethwr parasitaidd) yn dodwy wy y tu mewn i bryfed gleision. Pan fydd yr wy yn deor bydd yn bwyta'r pry glas gan adael mymi ar y ddeilen. Mae'n chwileru ac yna'n ymddangos yn barod i heintio rhagor o bryfed gleision.



***Aphidius- Rhywogaeth*** **o ysglafaethwyr parasitaidd ger pryf glas**




**Mymi (lliw aur) ar ddeilen.**

Maint: **2-4mm**
Bwyd: **Neithdar**
Tymheredd Uchaf: **Llai na 28°C**
Cyfraddau Atal: **0.25 pob $m^2$**
Cyfraddau Goroesi (Ysgafn/ Trwm): **1 pob $m^2$/ 2 pob $m^2$**

- Mae rhywogaethau parasitaidd ond yn targedu rhywogaethau penodol o bryfed gleision, felly mae'n bwysig gwybod pa rywogaeth o bryfed gleision rydych chi'n eu hwynebu.
- Mae llawer o gynnyrch yn gymysgedd o rywogaethau parasitaidd i helpu i gynnwys rhywogaethau gwahanol o bryfed gleision, ond darllenwch y sylw'n ofalus.
- Gan eu bod yn gallu hedfan, mae'r gwenyn meirch yn gallu symud drwy'r cnwd yn rhwydd gan ganolbwyntio ar fferonomau sy'n cael eu rhyddhau gan y planhigyn y mae'r pryfed gleision yn ymosod arno.
- Er mwyn sicrhau'r dull ataliol gorau, dylid rhoi ychydig ohono'n wythnosol yn ystod y cyfnodau pan mae nifer helaeth o bryfed gleision.

## Nematodau spp.- *Steinernema feltiae neu Steinernema kraussei*

Mae'r nemotodau hyn yn barasitiaid sy'n symud drwy ardal y pridd ac yn heintio'r ysglyfaethau. Nid ydynt yn achosi niwed i gnydau gan eu bod ond yn ymosod ar y plâu dewisol.



**Enghraifft o nematodau mewn daliant**



**Enghraifft o nematodau sych mewn pecynnau**

Maint: **<0.1mm**
Bwyd:

***Steinernema feltiae- Pryfed* Sciarid, larfâu thripau.**
***Steinernema kraussei-Gwiddon gwinwydden du***

Tymheredd Uchaf: **14-28°C**
Lleithder gorau posibl: **Lleithder Uchel.**

- Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod y nematodau wedi'u cymysgu'n dda yn y tanc er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwasgaru'n deg dros y cnwd.
- Mae'r nematodau'n teithio drwy leithder y pridd, os yw'r pridd yn rhy sych, ni fydd mor effeithlon oherwydd bydd y nematodau'n cael trafferth gweithredu.
- Mae'r nematodau'n lleoli eu hysglyfaeth yn ôl eu cynnyrch gwastraff ac yn eu heintio drwy agoriad corff.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefannau Bioline, Biobest neu Koppert:
https://www.biobestgroup.com/ https://www.biolineagrosciences.com/,
https://www.koppert.co.uk/